



Cyngor Abertawe

Adolygiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2018/19 (Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019)

Adroddiad – Fersiwn Gryno

Os oes angen yr wybodaeth hon arnoch mewn fformat
gwahanol, e-bostiwch

MynediadiWasanaethau@abertawe.gov.uk, ffoniwch

01792 636731 neu ysgrifennwch at:

Y Swyddog Cydraddoldeb, Ystafell Gaerloyw, Neuadd y
Ddinas, Abertawe SA1 4PE.

Cyflwyniad

Dyma grynodedb o Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2018-19. Dyma'n chweched adolygiad dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac mae'n adlewyrchu'r rheoliadau adrodd newydd ar gyfer Cymru, a gyflwynwyd yn 2011.

Adolygu Ein Hamcanion Cydraddoldeb

Buom yn adolygu ein cynnydd yn erbyn ein holl Amcanion Cydraddoldeb (sydd yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol) ym mis Ebrill 2019 gan roi diweddariad manwl yn yr adroddiad adolygu llawn. Dyma'r ail ddiweddariad i'n hamcanion ar gyfer 2016-2020 gan y gwnaethom fabwysiadu Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig yn 2016. Gweler ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016-2020, y fersiwn gryno a'r fersiwn hawdd ei darllen yma](#).

Gwybodaeth am Gydraddoldeb

Rydym yn parhau i ddefnyddio gwybodaeth am gydraddoldeb i lywio ein gwaith, e.e. mewn Asesiadau Effaith Cydraddoldeb, arolygon penodol a gwaith asesu anghenion.

Gwybodaeth am Gyflogaeth a Hyfforddiant

Mae'r wybodaeth bresennol am y gweithlu i'w chael yn yr adroddiad adolygu llawn.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r adran hon yn rhoi manylion cryno am ein gwaith arall (sy'n berthnasol i ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus) yn ystod 2018-19.

Aelodau Hyrwyddo Cydraddoldeb - Mae ein Cynghorwyr Hyrwyddo yn gyfrifol am ystod eang o faterion cydraddoldeb yn ogystal â themâu ehangach megis iechyd a lles, gofawyr a cham-drin domestig. Mae'r hyrwyddwyr yn rhoi llais i grwpiau neu faterion nad ydynt yn draddodiadol wedi'u cynrychioli'n ddigonol ac y mae angen eu cadw yn rheng flaen busnes y cyngor er nad ydynt efallai'n gyfrifoldeb i un unigolyn neu bwyllgor.

Cynrychiolwyr Cydraddoldeb

Mae ein cynrychiolwyr cydraddoldeb yn cynnwys grŵp o aelodau staff o adrannau gwahanol y cyngor sydd wedi'u sefydlu er mwyn cefnogi a datblygu'r gallu i integreiddio gwaith ar gydraddoldebau ar draws y cyngor. Pwrpas y grŵp hwn yw cynyddu ymwybyddiaeth o anghenion a barn pobl â nodweddion gwarchodedig yn y cyngor trwy eu meysydd gwasanaeth a'u hadrannau. Mae aelodau'r grŵp yn ymddwyn fel cyswllt rhwng eu hadrannau a'r Tîm Mynediad i Wasanaethau er mwyn nodi unrhyw faterion ynghylch cydraddoldeb a rhoi cefnogaeth wrth gwblhau AEC.

Panel Ymchwiliad Craffu - Cydraddoldebau

Sefydlwyd ein Panel Ymchwiliad Craffu - Cydraddoldebau ym mis Hydref 2018 â'r bwriad o archwilio sut roedd y cyngor yn bodloni ac yn ymgorffori'r gofynion o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru). Bwriad arall yr ymchwiliad oedd archwilio

sut roedd y cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â'r canlynol; dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu a fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall a gwaherddir yn y Ddeddf, gan hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng y rheini a chanddynt nodwedd warchoddedig a'r rheini hebddynt a meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r bobl nad ydynt yn ei rhannu. Ar y cyfan, daeth yr ymchwiliad i'r casgliad bod y cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru 2011) a nodwyd nifer o enghreifftiau o arfer da trwy gydol yr ymchwil. Fodd bynnag, nodwyd nifer o feysydd i'w gwella yn yr ymchwiliad mewn perthynas â gwella data a gwybodaeth, datblygu gwaith presennol er mwyn sicrhau bod polisïau, arfer a phrosesau effeithiol ar waith o fewn y busnes craidd a gwella ymgynghori a chynnwys.

Asesiadau Effaith Cydraddoldeb (AEC) - Rydym yn parhau i ddefnyddio ein proses AEC estynedig, sy'n cynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), gofalwyr, cydlyniant cymunedol, tlodi, eithrio cymdeithasol a'r Gymraeg. Mae ein protocol Cydraddoldeb a Chynnwys (i sicrhau bod asesiadau effaith cydraddoldeb yn cael eu holrhain a'u monitro trwy broses adrodd a phenderfynu'r cyngor) yn parhau i fod yn ddefnyddiol iawn wrth sicrhau yr ystyrir materion cydraddoldeb ac yr eir i'r afael â hwy lle y bo angen.

Ymgynghori a Chynnwys - Rydym wedi parhau i ddatblygu ein perthynas â grwpiau cymunedol lleol drwy'r canlynol, Fforwm LGBT (y gymuned Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol, Drawsrywiol) (a gynhelir mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru), y Rhwydwaith BME Rhanbarthol (a arweinir gan y Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig (EYST)) a'n Grŵp Cydgysylltu Anabledau, er enghraifft.

Cydgynhyrchu - Eleni rydym wedi datblygu Fframwaith Strategol Cydgynhyrchu Corfforaethol drafft yn dilyn gweithdy datblygu gyda Phwyllgor Datblygu Polisi Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol. Bydd y Pwyllgor yn parhau i ddatblygu polisi am gydgynhyrchu a chynnig argymhellion i'r Cabinet yn ystod 2019-20. Bydd hyn yn cyd-fynd â'n Strategaeth Ymgynghori a Chynnwys ddiwygiedig.

Troseddau Casineb - Rydym yn parhau i roi Cynllun Gweithredu Rhanddeiliaid Troseddau Casineb Abertawe ar waith gyda phartneriaid allweddol. Bwriad y cynllun yw cynyddu nifer yr adroddiadau am droseddau casineb. Cafwyd hyfforddiant cynyddu ymwybyddiaeth gan Cymorth i Ddiodefwyr a Chyngor Abertawe i asiantaethau partner a staff y cyngor.

Cydlyniant cymunedol - Rydym wedi parhau i weithredu rhaglen Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru yn ystod 2018-19. Bydd y rhaglen newydd yn canolbwyntio ar faterion allweddol, gan gynnwys chwalu rhwystrau i gynhwysiad ac integreiddio, darparu cefnogaeth a mynd i'r afael â gwahaniaethu. Mae ein Cynllun Cyflwyno Cydlyniant Cymunedol hefyd yn cynnwys nifer o weithgareddau newydd mewn perthynas â nodi a lliniaru

gweithredoedd sy'n berthnasol i densiwn cymunedol mewn perthynas â Brexit.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) - Mae ein Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc yn pennu'r trefniadau sydd gennym i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd sylw priodol ar gyfer cynnwys CCUHP yn fframwaith polisi'r awdurdod lleol. Rydym wedi parhau i wreiddio Hawliau Plant ym mhob un o bolisiâu, cynlluniau ac arferion y cyngor. Yn ystod 2018-2019, rydym wedi parhau i gynnwys safonau CCUHP yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i Ysgolion, Strategaeth Cyfranogiad y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Strategaeth y Blynyddoedd Cynnar, y Rhaglen Cyn-ysgol lach a Chynaliadwy, yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, cynlluniau'r Gwasanaeth Pobl Ifanc a Chynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe.

Addysg ac ysgolion - Mae ein gwaith Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth wedi parhau yn 2018-19 trwy nifer o weithdai a digwyddiadau yn ein hysgolion. Roedd y sesiynau'n trafod materion ynghylch hiliaeth, ystrydebu, terminoleg a dylanwad y cyfryngau. Cafwyd cynrychiolaeth dda o ysgolion Abertawe yng ngwobrau cystadleuaeth greadigol flynyddol Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth. Datblygwyd offeryn a'i lansio er mwyn i ysgolion gofnodi achosion o fwlio ac aflonyddu sy'n seiliedig ar hunaniaeth. Mae mwy o waith nawr yn yr arfaeth i ddatblygu'r offeryn ymhellach a hyrwyddo'i ddefnydd a'i werth i ysgolion.

Tlodi - Mae trechu tlodi'n flaenoriaeth gorfforaethol ac yn un o'r pum amcan allweddol yng Nghynllun Corfforaethol Abertawe. Adolygwyd a chyhoeddwyd y Strategaeth Trechu Tlodi ym mis Ionawr 2018. Mae cynllun cyflwyno ar draws adrannau'n gosod ymrwymadau ar draws y cyngor i sicrhau bod trechu tlodi'n fuesnes i bawb. Cymerwyd camau i sefydlu Comisiwn Gwirionedd Tlodi Abertawe, a fydd yn dod â phenderfynwyr allweddol ynghyd â phobl sydd wedi profi tlodi'n uniongyrchol.

Diwygio Lles - Rydym wedi parhau i liniaru effaith negyddol diwygiadau lles trwy baratoi ar gyfer cyflwyniad Credyd Cynhwysol a thrwy gynnal hyfforddiant parhaus er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth. Cynhaliwyd dadansoddiad 'Policy in Practice' o Single Household Benefit Extract Abertawe ym mis Medi 2018. Lluniwyd Cytundeb Rhannu Data sy'n caniatáu defnydd o'r data ar aelwydydd er mwyn darparu cynigion o gefnogaeth i grwpiau penodol a ddewisir ac fe'i cymeradwywyd.

Cam-drin domestig - Adolygodd y Grŵp Partneriaeth Strategol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yr amcanion yn y strategaeth a sefydlodd y camau gweithredu ar gyfer 2019/20. Mae'r Siop dan yr Unto ar gyfer Cam-drin Domestig yn parhau i ddatblygu ei gwasanaethau trwy ymagwedd bartneriaeth amlasiantaeth. Mae'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau ar draws y continwmm angen, o gyfleuster galw heibio brys i'r Rhaglen Rhyddid, y Rhaglen Feithrin a sesiynau coffi a chrefftau. Mae cymorthfeydd ar gael ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys cyngor cyfreithiol, cyngor ar gamddefnyddio sylweddau ac ar ddyled. Mae Canolfan Cam-drin Domestig Abertawe'n parhau i gefnogi plant a'u teuluoedd ac mae'n cymryd

'ymagwedd teulu cyfan' i gefnogi teuluoedd â phlant cyn gynted â phosib i atgyfnerthu ein agenda ataliol.

Fersiwn hawdd ei darllen- - Byddwn yn cyhoeddi ein hadolygiad blynyddol mewn fformat hawdd ei ddarllen eto eleni.

Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru - Mae gennym ymagwedd gydlynol at bob math o ddehongli a chyfieithu. Mae gennym hefyd wasanaeth negeseuon testun i breswylwyr.

Gwaith gyda phobl hŷn - Rydym wedi parhau i wreiddio'r camau yng nghynllun gweithredu Cynllun Lles Abertawe i gyflawni un o brif amcanion ein partneriaeth - Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda a sicrhau bod gweithgarwch yn cyd-fynd â gwaith Heneiddio'n Dda. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe wedi cefnogi'r egwyddorion a'r gweithredoedd a nodwyd yn Ddatganiad Dulyn ar Ddinasoedd sy'n Ystyriol o Bobl Hŷn ac mae'n cefnogi datblygiad ymagwedd Dinas Hawliau Dynol yn Abertawe. Rydym wedi parhau i weithio gyda'r Rhwydwaith 50+ ac Abertawe sy'n Ystyriol o Ddementia i ddatblygu gwaith ynghylch Heneiddio'n Dda. Rydym hefyd wedi cydgynhyrchu Cynllun Gweithredu sy'n Ystyriol o Ddementia, a gaiff ei ddatblygu ymhellach yn 2019/20.

Gwefan

Mae'r Gwasanaethau Digidol yn defnyddio Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys Gwe (WCAG 2.1) i'n helpu i wneud gwefan Cyngor Abertawe'n hygyrch. Mae'r canllawiau hyn yn esbonio sut i wneud cynnwys ar y we'n fwy hygyrch i bobl ag anableddau, ac yn hawdd i bawb ei ddefnyddio. Ein bwriad yw sicrhau nad oes unrhyw jargon ar y wefan, a'i fod yn cynnwys Cymraeg a Saesneg clir a syml, a'i fod yn hawdd ei chwilio ac yn cyflwyno gwybodaeth mewn trefn resymegol. Mae Tîm y We'n rhoi cefnogaeth i olygyddion y we ac yn darparu arweiniad ysgrifenedig trwy borth y staff (Staffnet) i sicrhau bod y tudalennau wedi'u hysgrifennu'n glir a'u bod yn gyson. Yn dilyn gwaith a wnaed gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe ar sut i lunio fersiynau hawdd eu darllen a Saesneg clir, mae gwybodaeth ar gael erbyn hyn ar Staffnet y gall staff gyfeirio ati.

Sylwadau Terfynol

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi ein galluogi i asesu ein cynnydd yn ystod ail flwyddyn ein CCS diwygiedig. Gwnaed cynnydd yn erbyn ein holl amcanion cydraddoldeb ac rydym yn gadarnhaol iawn am swm yr wybodaeth ychwanegol sydd gennym i'w chyflwyno, ymhell y tu hwnt i'n hamcanion cydraddoldeb. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad parhaus i'r agenda gydraddoldeb a'r cynnydd ychwanegol sy'n cael ei wneud.